# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR
# COFNODION CYFARFOD 3ydd GORFFENNAF 2018

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Troedyraur ar nos Fawrth y 3ydd o Orffennaf yn Neuadd Rhydlewis

**Yn bresennol**
Cyng Roger Davies
Cyng Rhys Williams
Cyng Eirian James
Cyng Owenna Davies
Cyng Evan John Jones
Cyng Emyr Wyn Jones
Cyng Maldwyn Lewis

**Ymddiheuriadau** Cyng Mark Davies, Cyng Llŷr Evans, Cyng Julie Davies a'r Clerc Eleanor Colbourne

**Clerc** Yn absenoldeb y Clerc cymerwyd y cofnodion gan y Cyng Rhys Williams

| Eitem agenda | Gweithredu | Gan pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| **1. Derbyn ymddiheuriadau** | Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Mark Davies, Cyng Llŷr Evans, Cyng Julie Davies a'r Clerc Eleanor Colbourne<br><br>Diolchwyd i'r Cyng Rhys Williams am ei wasanaeth a mai y cyfarfod hwn oedd ei gyfarfod olaf.<br><br>Canwyd clod i DahMilne, Glynhynod ar achlysur o ymweliad Tywysog Cymru â'r cwmni. | | |
| **2. Cadarnhau cofnodion** | Cynnigwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng Rhys Williams. Eiliwyd hyn gan y Cyng Evan John Jones | | |
| **3. Datgan diddordeb** | | | |
| **4. Gwybodaeth yn codi o'r cofnodion** | Angen copi o'r tystysgrif yswiriant er mwyn gwirio fod y taliad wedi ei dderbyn | Y Clerc | Medi |
| **5. Materion y Cynghorydd Sir** | • Ymweliad HRH Charles i Glynhynod.<br>• Adran Priffyrdd yn gweithio i gadw'r heolydd yn weithredol yn y gwres.<br>• Diffyg dŵr yn Coedybryn. Cyng Maldwyn Lewis wedi siarad gya Dŵr Cymru – gwaith yn cael ei wneud. Deiseb wedi ei lunio a'i roi i Dŵr Cymru. | | |
| **6. Gohebiaeth** | • Llythyr Cymdeithas yr Iaith ynglŷn â pholisi Iaith. Yn dilyn y llythyr hwn roedd angen gwneud awdit o bolisiau'r Cyngor.<br>    • Angen cysylltu gyda Un Llais Cymru i ddilyn o'r angen i gael polisi Iaith.<br>• Gohebiaeth Heddlu i'w rhannu ar y wefan<br>• Helpwch ni i'ch helpu chi – hwn eto i'w rannu ar y wefan.<br>• Un Llais Cymru – Cyng Owenna Davies a'r Cyng Mark Davies a'r Clerc i fynychu'r hyfforddiant cyllid.<br>• Ymgynghoriad cynllunio – angen cysylltu gyda Catrin Newbold i ofyn am gyfarfod i gael cymorth i fedru ymateb yn adeiladol i'r ymgynghoriad. | Clerc<br><br><br>Clerc<br><br>Clerc<br>Clerc<br><br>Clerc<br><br>Clerc | Medi<br><br><br>Erbyn Medi<br><br>10-07-18<br>10-07-18<br><br><br><br>10-07-18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Ymgynghoriad Safle Gwastraff Cartref Rhydeinion – i'w roi ar y wefan, yn y bocsys, copiau i'r siopau a creu poster dwyieithog, neuaddau a cymunedau. | Clerc | 05-07-18 |
| **7. Ariannol** | Cytunwyd i drosglwyddo £773.41 i'r cyfrif cyfredol fel bod balans o £1000 yn y cyfrif. Dylid trosglwyddo'n fisol i gadw'r balans yn £1000 o'r adeg hyn ymlaen.<br><br>Talwyd y canlynol<br>• £87.20 – treth y Clerc<br>• £350.02 – tâl y Clerc | Clerc | 31-08-18 |
| **8. Cynllunio** | • A180528 – Dim gwrthwynebiad i'r cais cyn belled fod yr adrannau perthnasol yn gwerthuso effaith nifer o aneddau ar draffig ar heol fechan.<br>• A180531 – cytuno mor belled a bod A180528 yn cael ei gytuno.<br>• A180586 – Cytuno ar yr amod nad yw cymeriad yr adeilad yn cael ei effeithio.<br>• A180582 – Cytuno ar yr amod nad yw cymeriad yr adeilad yn cael ei effeithio. | Clerc<br>Clerc<br>Clerc<br>Clerc | 04-07-18<br>04-07-18<br>15-07-18<br>15-07-18 |
| **9. Diffibriliwr** | Cyswllt uniongyrchol wedi ei dderbyn i ddilyn Ian. | Cadeirydd | 31-08-18 |
| **10. Aelodaeth Ysbyty Aberteifi** | Taliad ar 'standing order' mis Tachwedd. Parhau gyda'r cyswllt. | Cyng Maldwyn Lewis | Cyfarfod Ysbyty Aberteifi nesaf |
| **11. Cadw Cymru'n Daclus** | Cysylltu â'r Cyngor Sir i weld os oes offer ar gael i fenthyg | Clerc | Medi |
| **12. Cyrsiau Cynghorwyr Newydd** | Dim cyrsiau ar gael ag eithrio Un Llais Cymru. Gweler ohebiaeth | | |
| **13. Cyfieithu a Gwefan** | Llinos Jones i gyfieithu am dâl o £50/1000 o eiriau. | | |
| **14. Asesiad Risg** | Grŵp bychain i gwrdd i ddiwygio'r rhestr erbyn cyfarfod Medi i'w trafod | Cadeirydd | Cyn cyfarfod Medi |
| **15. Adborth Diogelu Data** | Cynghorwyr wedi mynychu – disgwyl ebost gyda manylion y cwrs a'i rannu. | Cadeirydd | Cyn cyfarfod Medi |
| **16. Cynghorwyr Newydd** | Un cais wedi'i dderbyn wrth Mr Teifi Evans, Troedyraur. Trafodwyd y cais a cytunodd y Cyngor i dderbyn y cais.<br><br>Angen cysylltu gyda'r Cyngor Sir i gychwyn ar y broses o llenwi 1 sedd. | Clerc i gysylltu gyda'r Sir i hysbysu'r ymgeisydd<br>Clerc | O fewn pythefnos<br><br>O fewn pythefnos |
| **17. Eitemau i'w trafod yn y cyfarfod nesaf** | Polisi Iaith; Safle Gwastraff; Asesiad Risg; Cynllunio – Adborth Catrin Newbold | | |
| **18. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | Neuadd Ffostrasol – 7.30 – 4ydd o Fedi 2018 | | |

Llofnod (Cadeirydd) ________________________________